Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

21/05/24

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Eisteddfod yr Urdd Maldwyn – Pob lwc i bob un o'r plant fydd yn teithio i Meifod yn ystod yr wythnos hanner tymor nesaf i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dymunwn yn dda i Ethan Bithell o flwyddyn 2 fydd yn cystadlu yn yr unawd, y grŵp cerddoriaeth creadigol ac i'r grŵp dawns creadigol a'r grŵp dawns aml-gyfrwng. Llongyfarchiadau hefyd i Elen Dodd o flwyddyn 6 sydd wedi cael llwyddiant yng nghystadleuaeth celf a chrefft yr Urdd, gan ddod yn gyntaf ar lefel cenedlaethol gyda gwaith ffotograffiaeth.

Addysg Gorfforol – Gofynnir i'r disgyblion wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gwersi addysg gorfforol wythnosol. Mae hyn yn cynnwys crys polo yr ysgol a siorts du/glas tywyll. Mae hefyd angen trainers addas ar gyfer gwersi. Erbyn yr amser yma o'r flwyddyn, dylai bod pob disgybl yn ymwybodol fod gwersi yn cael ei chynnal yn wythnosol ar ddyddiau penodol i'w dosbarth hwy. Os oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â hyn, yna dylech gysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth.

Gwisg Ysgol – Mae cwmni **RAM Leisure** yn gwerthu ein gwisg ysgol. Eu cyfeiriad yw **Trinity House, Whitegate Industrial Estate, Whitegate Rd, Wrecsam LL13 8UG**. Eu rhif ffôn yw **01978 360360**. Gallwch archebu ar eu gwefan **www.ourschoolwear.co.uk**. Cliciwch ar 'junior schools' a gallwch weld bathodyn yr ysgol.
Byddech yn cael eich cyfeirio at y dudalen berthnasol. Cofiwch labelu dillad eich plentyn, gan gynnwys esgidiau. Hoffwn eich atgoffa nad yw clustlysau na gemwaith eraill yn rhan o wisg yr ysgol ac felly ni chaniateir i'r disgyblion wisgo rhain yn yr ysgol. Caniateir styds yn unig yn y clustiau, ond bydd yn ofynnol i dynnu rhain neu eu gorchuddio gyda phlaster ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol.

Parcio – Gofynnir i bawb am gydweithrediad wrth barcio ar dir yr ysgol. Ni ddylid parcio ar y mannau penodol sydd ar gyfer cerddwyr i groesi ffordd a dylid hefyd cadw'r fynedfa i mewn i gampws yr ysgol yn glir.

Prydlondeb ac Absenoldebau – Mae presenoldeb uchel yn flaenoriaeth barhaus i'r ysgol. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Mae hefyd yn allweddol eich bod yn sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser. Bydd cloch yr ysgol yn canu am 8.55 ar gyfer cofrestru a chychwyn sesiwn gyntaf y dydd.
Os yw eich plentyn yn sâl, neu yn methu bod yn yr ysgol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda**. Byddwn yn monitro presenoldeb a phrydlondeb ac mewn cyswllt gyda chi os fydd ffigyrau presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol a pan fydd yn cychwyn cael effaith negyddol ar gynnydd eich plentyn.
O ran ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor ysgol, bydd yr ysgol yn penderfynu os bydd y ceisiadau yn cael ei hawdurdodi. Bydd yn ddibynnol ar ffigyrau presenoldeb presennol y plentyn yn ogystal â ffigyrau presenoldeb blaenorol. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gael absenoldeb o'r ysgol drwy gwblhau ffurflen gwyliau sydd ar gael o swyddfa'r ysgol. Yn unol â pholisi'r ysgol ni fydd ceisiadau am fwy na 5 diwrnod yn cael ei hawdurdodi. Os yw lefelau presenoldeb yn barod yn is na hyn a ddisgwylir, yna ni fydd ceisiadau am wyliau yn cael ei hawdurdodi. Rydym yn eich annog i wneud pob ymdrech i osgoi trefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol.
Mae hawl gan yr ysgol drwy drafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol, i gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig o £60 pan fydd presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol sydd heb ei hawdurdodi.

Beicio i'r ysgol – Mae'n braf gweld nifer o ddisgyblion yn beicio i'r ysgol. Er hyn, hoffwn eich annog i sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo helmed ddiogelwch addas. Hefyd bydd unrhyw feic a adewir ar gampws yr ysgol yn gyfrifoldeb y perchennog ac nid yr ysgol. Cynghorir i bob beic sy'n cael ei adael yn yr ardal feics gael ei ddiogelu gyda chlo pwrpasol.
Ni ddylid reidio beics ar fuarth yr ysgol ar ddiwedd y p'nawn, a dylid cerdded gyda'r beic ar lwybrau yr ysgol wrth gyrraedd ac wrth adael yr ysgol yn y bore/p'nawn gan fod yr amseroedd hyn yn amseroedd prysur o'r dydd gyda'r nifer o blant ac oedolion yn cyrraedd ac yn ymadael ar hyd y llwybrau cerdded.

Cŵn - Hoffwn eich atgoffa, oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, nad oes caniat âd i gŵn ddod ar gampws yr ysgol. Diolch am eich cyd-weithrediad.

Hanner tymor - Bydd yr ysgol yn cau am yr hanner tymor ar ddydd Gwener Mai y 24ain, gan ail agor ar ddydd Llun Mehefin 3ydd.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Rhodri Jones
Pennaeth